# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ004(SJR) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, 19 Ionawr 2005.

**At Mark Isherwood:**

Erbyn hyn yr wyf mewn sefyllfa i roi ateb mewn cysylltiad â'ch pwynt dilynol at Gwestiwn Llafar y Cynulliad, OAQ0004, gan Irene James AC am y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref, a'r ffordd y mae Awdurdodau Lleol Cymru yn perfformio yn ôl y targedau sydd wedi eu gosod yn y Ddeddf Arbed Ynni Cartref 1995.

Yr oedd y Ddeddf Arbed Ynni Cartref (1995) yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i gynhyrchu strategaethau i sicrhau gwelliant o 30% yn effeithlonrwydd ynni llety preswyl yn eu hardal erbyn 2007, o'u cymharu â pherfformiad y stoc ar 1 Ebrill 1997. Mae'n ofynnol yn statudol i awdurdodau gyflwyno adroddiad bob blwyddyn i Lywodraeth y Cynulliad am y gwelliant yn effeithlonrwydd ynni llety preswyl yn eu hardal. Fodd bynnag, nid oes rheidrwydd statudol ar Awdurdodau Lleol i gyrraedd y targed.

Yr oedd arweiniad gan Lywodraeth y Cynulliad i Awdurdodau Lleol i ychwanegu at negodiadau am y cylch diweddar o Gytundebau Polisi yn argymell, ar gyfer y Mesur Penodedig 7b, fod targed o welliant o 14% mewn effeithlonrwydd ynni domestig ar draws yr holl sectorau am y cyfnod 1997 i 2007 yn bosibl. Mae hyn yn dyblu'r lefelau gwelliant presennol. Caiff y fframwaith HECA cyfredol mewn Awdurdodau Lleol ei ddefnyddio i hwyluso gosod targedau ac adrodd am gynnydd.

Mae deuddeg Awdurdod Lleol yn ffurfiol wedi llofnodi Cytundebau Polisi gyda Llywodraeth y Cynulliad. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cymeradwyo Cytundebau Polisi chwe Awdurdod Lleol yn ychwanegol, ond nid yw'r rheini wedi llofnodi'r Cytundebau'n ffurfiol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn negodi ar hyn o bryd gyda'r pedwar Awdurdod Lleol sy'n weddill, ac mae eu Cytundebau Polisi hwy ar fin cael eu cymeradwyo'n derfynol.

Yr oedd Adroddiadau Cynnydd HECA gan Awdurdodau Lleol ar gyfer 2003/04 i gael eu cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad erbyn 5 Tachwedd 2004. Hyd yn hyn 13 o Adroddiadau Cynnydd HECA sydd wedi cyrraedd Llywodraeth y Cynulliad.

Bydd adroddiad am gynnydd Awdurdodau Lleol dan HECA a'r Cytundebau Polisi Ynni cysylltiedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ym mis Mai 2005.

## Gwybodaeth Ychwanegol at OAQ0040(SJR) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidiog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, 19 Ionawr 2005.

**At Jonathan Morgan:**

Yn ystod y cwestiynau ar 19 Ionawr 2005, codwyd mater digartrefedd yng Nghaerdydd gennych. O'r herwydd, rhoddais gyfarwyddyd i'm swyddogion ymchwilio i nifer diweddaraf yr adeiladau gwag awdurdod lleol yng Nghaerdydd.

Cafodd y ffigurau diweddaraf sydd ar gael am nifer yr anheddau gwag awdurdod lleol yng Nghaerdydd eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2004. Bryd hynny, yr oedd 315 o anheddau gwag awdurdod lleol yng Nghaerdydd (h.y. anheddau'r Cyfrif Refeniw Tai).

Yr oedd hyn yn cyfrif am 2 y cant o gyfanswm eu stoc o 14,289 o anheddau.

O’r rhain, yr oedd 139 ar gael i’w gosod ar unwaith, yr oedd 116 ar gael i’w gosod ar ôl mân waith trwsio, ac yr oedd 19 yn disgwyl cael eu dymchwel.  Yr oedd 64 o anheddau yn wag ers dros chwe mis.